

Model Protocol ac Arfer Da 2013

Datgelu gwybodaeth mewn
achosion honedig o gam-drin
plant a gwrandawiadau troseddol
a chyfarwyddiadau gofal
cysylltiedig

Hydref 2013

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant

Cymdeithas Cadeiryddion Byrddau Lleol Annibynnol Diogelu
Plant

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Yr Adran Addysg

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM,

Cymdeithas Llywodraeth Leol

Llywydd yr Adran Deulu

Uwch Farnwr Llywyddol ar gyfer Cymru a Lloegr
Llywodraeth Cymru

Ymchwilwch Cymru Cynnwys

| | | |
|---|---|-----------|
| 1. | Partïon | 4 |
| 2. | Cwmpas..... | 4 |
| 3. | Nodau ac Amcanion..... | 4 |
| Rhan A: Datgeliad i'r System Cyfiawnder Teuluol..... | | 6 |
| 4. | Cais gan awdurdod lleol i'r heddlu am ddatgeliad..... | 6 |
| 5. | Hysbysiad gan yr heddlu i'r awdurdod lleol ynghylch bodolaeth a statws ymchwiliad troseddol..... | 6 |
| 6. | Datgeliad gwirfoddol gan yr heddlu/CPS [Gwasanaeth Erlyn y Goron] i awdurdod lleol ac i'r system cyfiawnder teuluol | 7 |
| 7. | Achosion llys teulu: gorchmynion am ddatgeliad yn erbyn yr heddlu ac/neu'r CPS | 8 |
| Rhan B: Datgeliad gan yr Awdurdod Lleol/System Cyfiawnder Teuluol i'r System Cyfiawnder Troseddol..... | | 10 |
| 8. | Hysbysiad gan yr awdurdod lleol i'r heddlu ynghylch bodolaeth a statws achos llys..... | 10 |
| 9. | Cais gan yr heddlu i awdurdod lleol am ddatgeliad..... | 10 |
| 10. | Datgeliad gan yr awdurdod lleol i'r heddlu | 11 |
| 11. | Ceisiadau gan yr heddlu a'r CPS i'r llys teulu am ddatgeliad o ddeunydd yn perthyn i achos teuluol | 12 |
| 12. | Testun neu grynodedb dyfarniad mewn achos teulu | 14 |
| 13. | Datgeliad gan y CPS i'r amddiffyniaeth droseddol..... | 14 |
| 14. | Cais Imiwnedd Budd y Cyhoedd (PII) | 16 |
| Rhan C: Gwrandawiadau Cyfarwyddiadau Cysylltiedig..... | | 18 |
| 15. | Gwrandawiadau cyfarwyddiadau troseddol a gofal cysylltiedig - meini prawf | 18 |

| | | |
|---|--|-----------|
| 16. | Trefniadau ar gyfer gwrandawiaidau cyfarwyddiadau cysylltiedig... | 18 |
| 17. | Materion i'w hystyried yn y gwrandawiad cyfarwyddiadau cysylltiedig..... | 21 |
| 18. | Adolygiad | 22 |
| 19. | Protocolau Lleol | 22 |
| 20. | Llofnodwyr | 23 |
| Atodiadau | | 24 |
| Atodiad A - Manylion ynghylch manau cyswllt sengl o fewn lluoedd heddlu..... | | 24 |
| Atodiad B - Manylion ynghylch manau cyswllt sengl o fewn adrannau cyfreithiol awdurdodau lleol..... | | 25 |
| Atodiad C - Amddiffyn Plant: cais am ddatgeliad o ddeunydd | | 26 |
| Atodiad D - Ffurflen gais safonol ar gyfer datgeliad o wybodaeth gan yr heddlu | | 28 |
| Atodiad E - Amddiffyn plant: hysbysiad i awdurdod lleol gan erlynydd bod deunydd yn diwallu prawf datgelu CPIA | | 31 |
| Atodiad F - Hysbysiad amddiffyn plant gan awdurdod lleol: sylwadau ar ddatgelu.. | | 33 |
| Atodiad G - Tystiolaeth ar dâp fideo o ymgymeriad cyfrinachedd tyst sy'n blentyn .. | | 34 |
| Atodiad H - Cyfarwyddyd ar ddatgelu i'r heddlu..... | | 36 |
| Atodiad I - Cyfarwyddiadau troseddol a gofal cysylltiedig | | 38 |

1. Partïon

- 1.1. Y llofnodwyr i'r Model Protocol ac Arfer Da 2013 (o hyn ymlaen y "protocol 2013") ac eithrio'r paragraffau a restrir yn 1.4 isod yw'r Uwch Farnwr Llywyddol, Llywydd yr Adran Deulu, a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar ran Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS).
- 1.2. Cyhoeddir y protocol 2013 hwn â chefnogaeth Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu (ACPO), Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM a Chymdeithas Cadeiryddion Byrddau Lleol Annibynnol Diogelu Plant (LSCB).
- 1.3. Nid yw'r Adran Addysg (DfE), Llywodraeth Cymru (WG), Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant (ADCS) yn llofnodwyr i'r protocol 2013 ac nid yw cynnwys y ddogfen hon, ac nid yw'n ceisio bod, yn gyfrwymol ar Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'r DfE, WG, LGA ac ADCS yn cefnogi cynnwys y ddogfen hon ac yn ystyried ei fod yn Fodel Arfer Da, a gynigir fel cymorth, ac felly maent yn annog pob Awdurdod Lleol i fabwysiadu'r arferion datgelu a ddisgrifir o fewn y ddogfen, y bydd eu dilyn yn gwella amseroldeb ac felly'n cyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n destun yr achos llys perthnasol.
- 1.4. Cyfeirir paragraffau 7.1, 11.5, 11.7, 11.8, 16.1 i 16.7, 16.9, 16.10, 16.15 a'r cyfan o 17 yn y protocol 2013 hwn at y farnwriaeth. Y llofnodwyr i'r paragraffau hyn yw Llywydd yr Adran Teulu a'r Uwch Farnwr Llywyddol.

2. Cwmpas

- 2.1. Bydd y protocol 2013 hwn yn perthyn i bob achos sy'n ymwneud ag ymchwiliadau troseddol i gam-drin plant¹ (dioddefwyr sy'n blant 17 oed ac yn iau ar adeg y troseddu honedig) ac/neu achos Llys Teulu² achos sy'n ymwneud â phlentyn (17 oed ac yn iau).
- 2.2. Bydd y protocol 2013 hwn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2014.

3. Nodau ac Amcanion

¹ Mae cam-drin plant yn cynnwys cam-drin rhywiol a cham-drin nad yw'n rhywiol fel ei gilydd

² Ar hyn o bryd mae Llys Teulu'n golygu'r Llys Achosion Teuluol, y Llys Sirol (wrth ymarfer ei awdurdodaeth deuluol) ac Adran Deulu'r Uchel Lys. Pan ddaw'r Llys Teulu i fodolaeth bydd yn golygu'r Llys Teulu ac Adran Deulu'r Uchel Lys

- 3.1. I ddarparu hysbysiad cynnar i'r Awdurdod Lleol ac i'r Llys Teulu bod ymchwiliad troseddol wedi cychwyn.
- 3.2. I ddarparu hysbysiad cynnar amserol i'r Awdurdod Lleol ac i'r Llys Teulu o fanylion ac amserlen yr erlyniad troseddol.
- 3.3. I hwyluso datgeliad amserol a chyson o wybodaeth a dogfennau gan yr heddlu, a'r CPS, i'r System Cyfiawnder Teuluol.
- 3.4. I ddarparu hysbysiad i'r heddlu a'r CPS o gais i'r Llys Teulu am orchymyn i ddatgelu deunydd yr erlyniad i'r System Cyfiawnder Teuluol.
- 3.5. Yn amodol ar Reolau Trefniadaeth Teulu 2010 (a Chyfarwyddiadau Ymarfer perthnasol³) Rheolau Trefniadaeth Teulu 2013 a dyletswydd y gyfraith gyffredin ynghylch cyfrinachedd, i hwyluso datgeliad amserol a chyson o wybodaeth a dogfennau o'r System Cyfiawnder Teuluol i'r heddlu, ac/neu'r CPS.
- 3.6. I ddarparu proses prydlon amserol i'r Awdurdod Lleol ymateb i gais gan yr heddlu am ddeunydd a ddelir gan yr Awdurdod Lleol a fyddai'n cynorthwyo ymchwiliad troseddol.
- 3.7. I ddarparu am ymgynghori amserol rhwng y CPS a'r Awdurdod Lleol lle mae deunydd yr Awdurdod Lleol yn diwallu'r prawf yn Neddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 ynghylch datgeliad i'r amddiffyniaeth.
- 3.8. I ddarparu proses symlach a safonol ar gyfer ceisiadau gan yr heddlu ac/neu'r CPS am ganiatâd y Llys Teulu i ddatgelu deunydd sy'n perthyn i Achosion Llys Teulu.
- 3.9. I bennu gweithdrefn ar gyfer gwrandawiadau cyfarwyddiadau cysylltiedig mewn achosion troseddol a gofal cydredol.

³ Yn neilltuol, Cyfarwyddyd Ymarfer 12G

Rhan A: Datgelu i'r System Cyfiawnder Teuluol

4. Cais gan awdurdod lleol i'r heddlu am ddatgeliad

- 4.1. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag wrth gyhoeddi achos, bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu rhybudd i'r heddlu ynghylch rhagweld neu fodolaeth Achos Teuluol gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad D i'r cytundeb hwn. Hefyd mae'r ffurflen yn Atodiad D yn gweithredu fel cais am ddatgeliad gan yr heddlu (i gynnwys amserlen resymol⁴ heb fod yn fwy nag 14 diwrnod ar gyfer datgelu'r deunydd). Anfonir y ffurflen yn Atodiad D i un man cyswllt yr heddlu (SPOC) a atodir yn Atodiad A; (gweler paragraff 19.2 isod).
- 4.2. Lle mae achos troseddol wedi cychwyn (neu'n cael ei ragweld), bydd yr heddlu'n anfon copi o'r ffurflen yn Atodiad D i'r CPS ar unwaith. Bydd y CPS yn rhoi blaenoriaeth ddyledus i wneud penderfyniadau cyhuddo sy'n ymwneud ag Achosion Llys Teulu.
- 4.3. Lle nad yw'r wybodaeth neu'r dogfennau a geisir yn perthyn i ymchwiliad ynghylch cam-drin plant, bydd SPOC yr heddlu'n anfon y ffurflen yn Atodiad D i'r uned neu unedau sy'n dal y wybodaeth neu'r dogfennau a bydd yn cymryd cyfrifoldeb am gysylltu â'r unedau hynny ac i sicrhau'r ddarpariaeth o wybodaeth i'r Awdurdod Lleol.
- 4.4. Mae'n rhaid i bob parti ddeall y dylid defnyddio'r protocol 2013 yn gymesur a'i bod wedi'i gynllunio er mwyn hwyluso dim ond ceisiadau am ddeunydd a ddelir gan yr heddlu sy'n berthnasol i'r materion canolog yn yr achos. Ni ddylid tynnu ceisiadau am ddatgeliad yn lletach na sydd yn gwbl angenrheidiol a dim ond deunydd perthnasol y dylid ei ddatgelu. Mae'n rhaid i'r cais am ddatgeliad i'r heddlu ganolbwyntio ar adnabod y dogfennau sy'n wir eu hangen⁵.

5. Hysbysiad gan yr heddlu i'r awdurdod lleol ynghylch bodolaeth a statws ymchwiliad troseddol

- 5.1. O fewn 5 diwrnod gwaith o gychwyn yr ymchwiliad, bydd yr heddlu'n darparu i'r Awdurdod Lleol fanylion SPOC o'r ymchwiliad troseddol gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad C i'r Protocol hwn (rhestrir

⁴ Wrth sefydlu'r amserlen resymol briodol, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried amserlen yr achos Llys Teulu, y gofyniad bod rhaid i achos gofal gael ei gwblhau o fewn 26 wythnos o'r dyddiad y cyhoeddwyd y cais, a gofynion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig (PLO)

⁵ Parthed H-L (Plentyn) [2013] EWCA Civ 655

manyllion cyswllt SPOCau Awdurdod Lleol yn Atodiad B, gweler paragraff 19.3 isod).

- 5.2. Bydd yr heddlu'n cysylltu â SPOC yr Awdurdod Lleol ar adeg y cyhuddiad, yn darparu manyllion troseddau, statws gwarchodaeth diffynyddion, amodau mechnïaeth ac amserlenni'r llys. Hefyd bydd yr heddlu'n darparu manyllion cyswllt ar gyfer y CPS i'r Awdurdod Lleol.
- 5.3. Os digwydd na chyhuddir yr unigolyn/y rhai drwgdybiedig, bydd yr heddlu, wrth ymgynghori â'r CPS, yn darparu rhesymau i'r Awdurdod Lleol pam na fydd erlyniad⁶.
- 5.4. O fewn 5 diwrnod gwaith o bob Gwrandawriad Rheoli Achos⁷ yn Llys y Goron, bydd y CPS yn darparu i SPOC yr Awdurdod Lleol (neu gyfreithiwr yr Awdurdod Lleol os yw'n hysbys) fanyllion amserlen ddyfodol yr achos troseddol a manyllion unrhyw gyfarwyddiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod Lleol neu i Achos Teuluol cydredol.
- 5.5. O fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn anfon y manyllion ym mharagraffau 5.1 i 5.4 uchod i'r Llys Teulu.

6. Datgeliad gwirfoddol gan yr heddlu/CPS [Gwasanaeth Erlyn y Goron] i awdurdod lleol ac i'r system cyfiawnder teuluol

- 6.1. Lle mae achos troseddol wedi cychwyn (neu'n cael ei ragweld), dylai'r heddlu ymgynghori â'r CPS cyn gwneud penderfyniad ynghylch datgelu deunydd yr heddlu i'r Awdurdod Lleol neu beidio. Mae'n rhaid i amseriad y fath ymgynghori ystyried unrhyw amserlen resymol a bennir gan yr Awdurdod Lleol ym mharagraff 4.1 uchod.
- 6.2. O fewn yr amserlen a bennir gan yr Awdurdod Lleol yn Atodiad D (paragraff 4.1 uchod), bydd yr heddlu'n darparu (trwy fodd diogel, e.e. e-bost diogel) y deunydd y gofynnwyd amdano i'r Awdurdod Lleol. Bydd yr heddlu'n cwblhau a dychwelyd ail ran y ffurflen yn Atodiad D. Mae'r Awdurdod Lleol yn cytuno y datgelir deunydd yr heddlu i'r gweithwyr proffesiynol a'r Partïon yn yr Achos Teuluol yn unig (oni bai y ceir caniatâd y llys i ddatgelu deunydd i bobl eraill).
- 6.3. Ni ryddheir cyfweiliadau a recordir yn weledol (cyfweiliadau Cyflawni'r Dystiolaeth Orau) i'r Awdurdod Lleol ac eithrio gydag ymgymriad ysgrifenedig gan yr Awdurdod Lleol er mwyn atal defnydd o'r

⁶ Gwneir penderfyniadau i gyhuddo yn unol â'r Cod Ar Gyfer Erlynwyr y Goron (adran 10 Deddf Erlyn Troseddau 1985)

⁷ Bydd Gwrandawriadau Rheoli Achos yn Llys y Goron yn cynnwys Gwrandawriadau Rhagarweiniol a Gwrandawriadau Pledio a Rheoli Achos

dystiolaeth heb awdurdod. Dylid defnyddio'r ffurflen o ymgymieriad yn Atodiad G at y diben hwn.

- 6.4. Oni bai bod angen datgeliad i sicrhau diogelwch uniongyrchol plentyn, ni fydd yr Heddlu'n datgelu deunydd lle byddai gwneud hynny'n rhagfarnu'r ymchwiliad ac/neu'r erlyniad (neu ble fydd angen, ar sail cyfrinachedd, i gael caniatâd yr unigolion sy'n darparu datganiadau). Fodd bynnag, dylid gwneud datgeliad adolygedig ble bynnag mae'n bosibl. Bydd yr heddlu'n dangos ar y ffurflen yn Atodiad D y dyddiad bras y gellir gwneud datgeliad. Mae'n rhaid i'r heddlu (gan ymgynghori â'r CPS) ddarparu rhesymau manwl ar Atodiad D ynghylch pam y cedwir unrhyw ddeunydd yn ôl.
- 6.5. Fel arall, gall yr heddlu ddangos y gwneir datgeliad os digwydd bod yr Awdurdod Lleol yn cael gorchymyn yn y Llys Teulu sy'n datgan na ddylid datgelu'r deunydd i unigolyn(unigolion) a enwir (fel arfer, y rhai a ddrwgdybir ac/neu dystion yn yr achos troseddol). Hefyd dylid cael y fath orchymyn llys ble mae'n bosibl os digwydd bod datgeliad yn cael ei wneud (fel ym mharagraff 6.4 uchod) er mwyn sicrhau diogelwch uniongyrchol plentyn.
- 6.6. Gall y Llys Teulu ofyn am ddatgeliad gan yr Awdurdod Lleol o ddeunydd a ddelir ganddynt sy'n perthyn i'r achos troseddol. Eto, bydd yr Awdurdod Lleol yn hysbysu'r CPS (neu'r heddlu os nad yw achos troseddol wedi cychwyn) cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol. Lle mae'r heddlu ac/neu'r CPS yn gwrthwynebu datgeliad, byddant yn gwneud sylwadau priodol **ac amserol** i'r Llys Teulu yn egluro pam y gallai'r fath ddatgeliad ragfarnu'r achos troseddol.

7. Achosion llys teulu: gorchmynion am ddatgeliad yn erbyn yr heddlu ac/neu'r CPS

- 7.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn hysbysu'r heddlu a'r CPS (o fewn 2 ddiwrnod gwaith o wneud y cais) o unrhyw gais i'r Llys Teulu (os y'i gwneir gan yr Awdurdod Lleol neu unrhyw barti arall) am ddatgelu deunydd yr erlyniaeth. Bydd yr Awdurdod Lleol yn hysbysu'r heddlu ac/neu'r CPS o ddyddiad ac amser y gwrandawriad yn y Llys Teulu y penderfynir ar y datgeliad ynddo⁸. Bydd unrhyw orchymyn am ddatgeliad gan y Llys Teulu yn y ffurflen yn Atodiad H i'r protocol hwn (y mae defnydd ohono gan y Llys Teulu'n orfodol). Lle mae'n briodol, bydd yr heddlu ac/neu'r CPS yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol wrth ddrafftio Cyfarwyddiadau.

⁸Mae'r Gorchymyn Cyfarwyddiadau Safonol, a wneir gan y Llys Teulu yn unol â'r PLO o fewn 24 awr o ddyddiad cyhoeddi'r achos, yn darparu i unrhyw gais am ddatgeliad gan unrhyw asiantaeth gael ei ffeilio a'i gyflwyno erbyn dyddiad penodedig *cyn* y Gwrandawriad Rheoli Achos (CMH) yn y Llys Teulu. Sylwer bod y PLO yn mynnu nad yw'r CMH yn hwyrach na 12 diwrnod gwaith ar ôl i'r achos gofal gychwyn

- 7.2. Lle mae'n cael ei gyfarwyddo, bydd yr heddlu ac/neu'r CPS yn mynychu Gwrandawriad y Llys Teulu er mwyn egluro'r goblygiadau ar gyfer treial troseddol pan yw gorchmynion am ddatgeliad yn cael eu hystyried gan y llys. Beth bynnag, bydd yr heddlu ac/neu'r CPS yn darparu sylwadau ysgrifenedig i'r Llys Teulu a'r Awdurdod Lleol lle gwrthwynebir datgeliad (**yn egluro pam** y gellid ystyried yn rhesymol y byddai datgeliad yn gallu peryglu'r ymchwiliad ac/neu'r erlyniad).
- 7.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod unrhyw Orchymyn yn erbyn yr heddlu ac/neu'r CPS yn cael ei gyflwyno cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol (a beth bynnag o fewn 2 ddiwrnod gwaith o ddyddiad y gorchymyn) i'r heddlu ac/neu'r CPS.
- 7.4. Bydd yr heddlu a/neu'r CPS yn cydymffurfio ag unrhyw orchymyn gan y llys.

Rhan B: Datgeliad gan yr Awdurdod Lleol/System Cyfiawnder Teuluol i'r System Cyfiawnder Troseddol

8. Hysbysiad gan yr awdurdod lleol i'r heddlu ynghylch bodolaeth a statws achos teuluol

- 8.1. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol a beth bynnag wrth gyhoeddi achos, bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu rhybudd i'r heddlu ynghylch rhagweld neu fodolaeth Achos Teuluol gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad D i'r protocol 2013 hwn. Lle mae Achos Teuluol wedi cychwyn, darperir manylion o'r holl bartïon (a chynrychiolwyr cyfreithiol). Darperir manylion o gyfreithiwr dynodedig yr Awdurdod Lleol. Anfonir y ffurflen yn Atodiad D i un man cyswllt yr heddlu (SPOC) a atodir yn Atodiad A.
- 8.2. Lle anfonir y ffurflen yn Atodiad D i'r heddlu ar adeg cyn bod manylion pob parti i'r Achos Teuluol yn hysbys, bydd yr Awdurdod Lleol yn hysbysu derbynnydd yr heddlu yn Atodiad D o fanylion yr holl bartïon (a chynrychiolwyr cyfreithiol) i'r Achos Teuluol. Hefyd bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu manylion o amserlen y dyfodol yr Achos Teuluol. Hefyd bydd yr heddlu'n anfon gwybodaeth i'r CPS.
- 8.3. Lle mae achos troseddol wedi cychwyn (neu'n cael ei ragweld), bydd yr heddlu'n anfon copi o'r ffurflen yn Atodiad D i'r CPS. Bydd y CPS yn rhoi blaenoriaeth ddyledus i wneud penderfyniadau cyhuddo sy'n ymwneud ag Achosion Llys Teulu.

9. Cais gan yr heddlu i awdurdod lleol am ddatgeliad

- 9.1. Yn sgil cychwyn yr ymchwiliad, bydd yr heddlu'n darparu i SPOC yr Awdurdod Lleol y ffurflen yn Atodiad C i'r protocol 2013 hwn. Cyflwynir manylion y SPOC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn Atodiad B (gweler paragraff 19.3 isod).
- 9.2. Bydd ffurflen Atodiad C yn cynnwys manylion yr ymchwiliad a'r erlyniad os ydynt wedi cychwyn (gweler paragraff 5.1 uchod). Mae'n **rhaid** i geisiadau am ddeunydd fod mor gyfarwyddol a manwl â phosibl ac yn angenrheidiol ar gyfer dilyn llwybrau ymholi rhesymol⁹. Bydd y ffurflen yn Atodiad C yn cynnwys amserlenni rhesymol i'r heddlu dderbyn mynediad i ddeunydd perthnasol, ond rhagdybir y bydd yr Awdurdod Lleol yn delio ag unrhyw gais gan yr heddlu mor

⁹ Paragraff 3.6 Cod Ymarfer y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996

gyflym â phosibl fel na pheryglir yr ymchwiliad troseddol. Bydd amserlenni'n benodol i'r achos a byddant yn ystyried cam/natur yr ymchwiliad ac/neu'r erlyniad.

10. Datgeliad gan awdurdod lleol i'r heddlu

- 10.1. Ar ôl derbyn y ffurflen yn Atodiad C oddi wrth yr heddlu, bydd SPOC yr Awdurdod Lleol (neu'r swyddog dirprwyedig) yn adnabod a chasglu deunydd perthnasol gan y Gwasanaethau Plant neu ffeiliau eraill fel sy'n briodol, bydd y SPOC (neu'r swyddog dirprwyedig) yn cysylltu ag adrannau perthnasol o fewn yr Awdurdod Lleol wrth gasglu'r fath ddeunydd i'r heddlu er mwyn cynorthwyo'r ymchwiliad troseddol.
- 10.2. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybod i'r heddlu am yr ysgol(ion) a fynychir gan y plentyn/plant sy'n destun yr ymchwiliad. Bydd hyn yn galluogi'r heddlu i fynd at yr ysgol yn uniongyrchol. Fel arall, os yw'n ymarferol i'w wneud, bydd yr Awdurdod Lleol yn cael a chasglu ffeiliau addysgol perthnasol i'r heddlu eu harchwilio.
- 10.3. Yn amodol ar baragraffau 10.4 a 10.5 isod, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod dogfennau sy'n perthyn i achos yn y Llys Teulu¹⁰ heb eu cynnwys yn y ffeiliau i'w harchwilio gan yr heddlu. Lle mae dogfennau sy'n perthyn i achos yn y Llys Teulu, bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu rhestr (e.e. trwy ddarparu copi o fynegai llys adolygedig) o'r deunydd hwnnw heb ddisgrifio beth ydyw, er mwyn i'r heddlu a/neu'r CPS, os yn briodol, wneud cais i'r Llys Teulu am ddatgeliad.
- 10.4. Yn bwysig, gall yr Awdurdod Lleol ddatgelu dogfennau i'r heddlu a gyflwynir yn y llys, neu a ddefnyddir yn yr achos, a oedd eisoes yn bodoli¹¹ (e.e. adroddiadau meddygol a oedd yn bodoli eisoes). Yn yr un modd, gellir cynnwys testun neu ddyfarniad a roddir yn y Llys Teulu yn y ffeiliau i'w harchwilio gan yr heddlu.¹²
- 10.5. Nid yw paragraff 10.3 uchod yn atal yr Awdurdod Lleol rhag darparu dogfennau neu wybodaeth i'r heddlu ynghylch achos Llys Teulu lle (a) mae'r swyddog heddlu mae datgeliad yn cael ei wneud iddo'n gwneud ei ddyletswyddau dan adran 46 Deddf Plant 1989 neu'n gwasanaethu mewn uned amddiffyn plant neu uned i bedoffilyddion a (b) lle mae datgeliad at ddibenion amddiffyn plant ac nid at ddibenion yr ymchwiliad troseddol¹³.
- 10.6. Lle datgelir deunydd yn unol â pharagraff 10.5 uchod, ni all yr heddlu wneud datgeliad ymlaen o unrhyw ddogfennaeth **neu wybodaeth** a

¹⁰ Mae Adran 12(1) Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1960 yn gwahardd y fath gyfathrebu

¹¹ Parthed Ward (Plentyn) [2010] EWHC 16 (Teulu); [2010] 1 FLR 1497

¹² Rheol 12.73(1)(c) Rheolau Trefnidaeth Teulu 2010 a Chyfarwyddyd Ymarfer 12G

¹³ Rheol 12.73(1)(a)(viii) Rheolau Trefnidaeth Teulu 2010

gynhwysir ynddo at ddibenion yr ymchwiliad neu'r erlyniad heb ganiatâd datganedig y Llys Teulu.¹⁴ (er mwyn osgoi amheuon, bydd hyn yn cynnwys datgeliad i'r CPS).

- 10.7. Lle, dan amgylchiadau eithriadol¹⁵, ni all yr Awdurdod Lleol gynnwys deunydd arall (nad yw'n perthyn i achos Llys Teulu) yn y ffeiliau i'w harchwilio gan yr heddlu, bydd yr Awdurdod Lleol yn hysbysu'r heddlu mewn ysgrifen o fodolaeth y deunydd hwn; yn cyflwyno'r rheswm pam na threfnir bod y deunydd ar gael i'r heddlu. Dylai'r fath drywydd fod yn eithriadol gan fod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y caiff y deunydd ei ystyried fel deunydd sensitif gan yr heddlu a'r CPS. Ni chaiff ei ddatgelu i'r amddiffyniaeth heb ymgynghori pellach gyda'r Awdurdod Lleol (gweler paragraff 13.9 i 14.3 isod).
- 10.8. O fewn yr amserlenni a gyflwynir yng nghais Atodiad C (neu a gytunir fel arall rhwng yr Awdurdod Lleol a'r heddlu), bydd yr heddlu'n archwilio ac adolygu'r deunydd a gesglir gan yr Awdurdod Lleol. Fel arfer bydd yr adolygiad yn digwydd ar safle'r Awdurdod Lleol ond gall ddigwydd rywle arall trwy gytundeb. Gall yr heddlu wneud nodiadau ac/neu gymryd copïau o'r deunydd. Ni ddatgelir y deunydd i'r amddiffyniaeth heb ymgynghori pellach gyda'r Awdurdod Lleol neu orchymyn gan y llys (gweler paragraff 13.9 i 14.3 isod).
- 10.9. Lle mae deunydd perthnasol arall o'r Awdurdod Lleol yn dod i'r amlwg ar ôl i'r heddlu archwilio'r deunydd ym mharagraff 10.8 uchod, bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r heddlu ac/neu'r CPS er mwyn trefnu i'r heddlu archwilio'r deunydd newydd.
- 10.10. Yn yr un modd, lle mae materion newydd yn codi yn yr achos troseddol (e.e. yn sgil derbyn datganiad achos yr amddiffyniaeth), bydd yr heddlu'n cyflwyno ffurflen Atodiad C arall yn gofyn am fynediad i ddeunydd nas archwiliwyd yn flaenorol.

11. Ceisiadau gan yr heddlu a'r CPS i'r llys teulu am ddatgeliad o ddeunydd yn perthyn i achos teuluol

¹⁴ Cyngor Dosbarth (Ymgeisydd) v M (Ymatebydd) & Heddlu Gorllewin Swydd Gaerefrog (Ymyrwyr) [2007] EWHC 3471 (Teulu); [2008] 2 FLR 390

¹⁵ Mae'r gyfraith yn caniatáu datgelu gwybodaeth gyfrinachol lle gellir canfod budd gwrthbwyso i'r cyhoedd. Bydd y fath fudd i'r cyhoedd yn cynnwys gweinyddu cyfiawnder, atal drygioni a galluogi corff cyhoeddus arall i gyflawni ei ddyletswydd gyhoeddus (R v Prif Gwnstabl Gogledd Cymru ex parte Thorpe [1996] QB 396). Dan yr amgylchiadau hyn, ni chyfyngir cyfnewid deunydd perthnasol gyda'r heddlu a'r CPS dan Ddeddf Diogelu Data 1998

- 11.1. Ar y cam cyn cyflwyno papurau'r erlyniad yn unol ag adran 51 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yn gyffredinol gwneir ceisiadau gan yr heddlu. Ar ôl y cam hwn, yn gyffredinol gwneir ceisiadau gan y CPS.
- 11.2. Mae'n rhaid i geisiadau am ddatgeliad gan yr heddlu gynnwys manylion y swyddog a enwir y ceisir datgeliad iddo.¹⁶ ac mae'n rhaid pennu'r pwrpas a'r defnydd a fwriedir ar gyfer y deunydd. Dylai ceisiadau geisio caniatâd (lle mae'n briodol) i ddatgelu'r deunydd i'r CPS, i ddatgelu'r deunydd i gyfreithwyr yr amddiffyniaeth droseddol¹⁷ ac (yn amodol ar adran 98(2) Deddf Plant 1989¹⁸) i ddefnyddio'r deunydd mewn tystiolaeth yn yr achos troseddol.
- 11.3. Mae'n rhaid i geisiadau gan y CPS bennu'r pwrpas a'r defnydd a fwriedir ar gyfer y deunydd a dylid ceisio caniatâd i rannu'r deunydd gyda'r heddlu a gyda'r amddiffyniaeth ac (yn amodol ar adran 98(2) Deddf Plant 1989) i ddefnyddio'r deunydd mewn tystiolaeth yn yr achos troseddol.
- 11.4. Caiff ceisiadau eu gwneud ar Ffurflen C2. Mae'n rhaid i'r cais gael ei gyflwyno gan yr heddlu neu'r CPS i bob parti i'r Achos Teuluol (Ar ôl i'r Awdurdod Lleol hysbysu'r heddlu o fanylion pob parti i'r Achos Teuluol yn unol â pharagraffau 8.1 ac 8.2 y protocol hwn).
- 11.5. Caiff y cais ei benderfynu mewn gwrandawriad yn y Llys Teulu. Ni fydd yr heddlu a'r CPS yn mynychu'r gwrandawriad oni bai y'i cyfarwyddir i wneud felly gan y Llys Teulu.
- 11.6. Lle mae'n ymarferol i geisio caniatâd ysgrifenedig blaenorol i ddatgeliad gan **bob Parti** i'r Achos Teuluol, dylai'r heddlu neu'r CPS ei wneud. Yna dylid gwneud cais mewn ysgrifen i'r Llys Teulu yn ceisio gorchymyn caniatâd.
- 11.7. Fel arall (**a phryd bynnag y bydd hyn yn bosibl**), bydd yr heddlu a'r CPS yn gofyn i gyfreithiwr dynodedig yr Awdurdod Lleol (neu'r SPOC os nad yw manylion y cyfreithiwr dynodedig yn hysbys) i ofyn bod y Llys Teulu'n ystyried y mater o ddatgeliad i'r heddlu a/neu'r CPS yn y gwrandawriad nesaf. Fel hyn, bydd y Llys Teulu mewn sefyllfa i wneud unrhyw orchmynion sy'n ymddangos yn briodol heb yr angen i'r heddlu a/neu'r CPS wneud cais i'r Llys Teulu. Wrth ofyn i'r Llys Teulu wneud gorchymyn yn unol â'r paragraff hwn, bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod y partiön eraill ar rybudd; a bydd yn darparu manylion i'r llys o'r swyddog y caiff datgeliad ei wneud iddo a'r diben dros ei wneud.

¹⁶ Parthed H (Plant)[2009] EWCA Sif. 704; [2009] 1 FLR 1531

¹⁷ Lle mae angen dan adran 3 neu adran 7A y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.

¹⁸ mae Adran 98(2) yn darparu nad yw datganiadau a chyfaddefiadau mewn achosion Llys Teulu yn dderbyniadwy mewn achosion troseddol

- 11.8. Mewn achosion prin, lle mae'n ystyried ei fod yn briodol i'w wneud felly, dylai'r Llys Teulu wneud gorchmynion am ddatgeliad i'r heddlu a/neu'r CPS heb fod cais wedi'i wneud gan yr heddlu neu'r CPS.

12. Testun neu grynodedb dyfarniad mewn achos teuluol¹⁹

- 12.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn anfon ymlaen i'r CPS gopiâu o ddyfarniadau perthnasol o'r Llys Teulu (a chrynodebau ohonynt) sydd ym meddiant yr Awdurdod Lleol. Gall y dyfarniadau gael eu hadolygu'n briodol.
- 12.2. Lle nad yw'r Awdurdod Lleol yn meddu ar ddyfarniad sy'n ymddangos yn berthnasol i'r achos troseddol cydredol (e.e. dyfarniad i ganfod ffeithiau), bydd yn hysbysu'r CPS er mwyn i'r CPS gael gafael ar y dyfarniad yn uniongyrchol oddi wrth y Llys Teulu. Dan yr amgylchiadau hyn ni fydd angen gwneud cais ffurfiol am ddatgeliad ar Ffurflen C2; bydd y CPS yn gofyn am ryddhau'r dyfarniad dan Gyfarwyddyd Ymarfer 12G uchod.
- 12.3. Lle mae'n ymddangos i'r Awdurdod Lleol y bydd y dyfarniad yn berthnasol i'r achos troseddol, bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn bod y Llys Teulu'n hwyluso paratoi'r dyfarniad i'w ryddhau i'r CPS (ac os yn bosibl ar draul y cyhoedd). Fel arall, gellir ystyried y mater o ddatgelu'r dyfarniad i'r CPS dan Gyfarwyddyd Ymarfer 12G mewn gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig.

13. Datgeliad gan y CPS i'r amddiffyniad troseddol

- 13.1. Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996²⁰ yn mynnu bod yr erlyniaeth yn datgelu i'r amddiffyniaeth unrhyw ddeunydd (gan gynnwys deunydd sensitif) y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn gallu tansilio achos yr erlyniaeth yn erbyn y sawl a gyhuddir neu gynorthwyo'r achos o blaid y sawl a gyhuddir (y "prawf datgelu"). Lle mae'n briodol, gellir gwneud cais i'r llys troseddol i gadw deunydd sensitif yn ôl os yw'n diwallu'r prawf datgelu ar sail imiwnedd budd y cyhoedd (cais PII).
- 13.2. Dylai ceisiadau PII i'r llys troseddol ynghylch cadw deunydd sensitif yn ôl fod yn brin. Fel arfer mae tegwch yn mynnu y dylid datgelu'r holl

¹⁹ Mae Rheol 12.73(1)(c) Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 a Chyfarwyddyd Ymarfer 12G yn caniatáu datgeliad o destun neu grynodedb o'r cyfan neu ran o ddyfarniad a roddir mewn achos teuluol i swyddog yr heddlu neu aelod o'r CPS at ddibenion ymchwiliad troseddol neu i alluogi'r CPS i gyflawni ei swyddogaethau. Gall y Swyddog Heddlu neu gyfreithiwr y CPS gyfathrebu'r wybodaeth am y pwrpas mae ef/hi wedi derbyn y wybodaeth amdano'n unig.

²⁰ Mae Adran 3 ac adran 7A

ddeunydd sy'n gwanhau achos yr erlyniaeth neu'n cryfhau achos yr amddiffyniaeth. Nid oes sail i wneud cais PII ac eithrio lle mae'r erlynydd wedi adnabod deunydd sy'n bodloni'r prawf datgelu, y byddai'i ddatgelu'n creu risg wirioneddol o anghyfiawnder difrifol i fudd pwysig y cyhoedd²¹

- 13.3. Caiff yr holl ddeunydd a geir oddi wrth yr Awdurdod Lleol ei restru gan yr heddlu ar yr atodlen ddatgeliad sensitif MG6D. Hefyd caiff y rhestrau o ddeunydd nas datgelir gan yr Awdurdod Lleol i'r heddlu eu cynnwys ar yr MG6D (gweler paragraff 10.3 uchod: deunydd yn perthyn i Achosion Teuluol; a pharagraff 10.7 uchod: deunydd a gedwir yn ôl ar sail cyfrinachedd).
- 13.4. Mae'n rhaid peidio â datgelu deunydd a geir gan yr heddlu yn unol â Rheol 12.73(1)(a)(viii) Rheolau Trefnidiaeth Teulu 2010 (gweler paragraffau 10.5 a 10.6 uchod) i'r CPS. Bydd yr heddlu'n datgelu bodolaeth y deunydd ar yr MG6D (heb ei ddisgrifio). Fel sy'n briodol, bydd y CPS yn ceisio caniatâd y Llys Teulu er mwyn cyrchu'r deunydd.
- 13.5. Lle cafwyd y deunydd yn sgil cais gan yr heddlu i'r Llys Teulu, mae'n rhaid i'r heddlu ddangos i'r CPS a yw'r Llys Teulu wedi rhoi caniatâd i'r deunydd gael ei rannu gyda'r CPS a'r amddiffyniaeth. Efallai y bydd angen cais arall i'r Llys Teulu gan yr heddlu a/neu'r CPS fel sy'n briodol.
- 13.6. Bydd y CPS yn adolygu'r deunydd yn unol â'i ddyletswyddau statudol²² ac o dan Ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu. Dim ond deunydd a allai danseilio achos yr erlyniad neu a allai gynorthwyo'n rhesymol achos yr amddiffyniaeth a gaiff ei ddatgelu. Ni fydd datgeliad "blanced" i'r amddiffyniaeth o dan unrhyw amgylchiadau.
- 13.7. Lle, yn unol â pharagraff 10.7 uchod, na threfnir bod dogfen o'r Awdurdod Lleol ar gael i'r heddlu ar sail cyfrinachedd (e.e. ni chafwyd caniatâd gan yr unigolyn mae'r ddogfen yn perthyn iddo), bydd y CPS yn ystyried a yw'n briodol i geisio mynediad i'r fath ddeunydd trwy godi gwŷs ar dyst yn y llys troseddol²³.
- 13.8. Lle, dan yr amgylchiadau hyn, y gwneir cais gan y CPS am godi gwŷs ar dyst, bydd y CPS yn cyflwyno'r cais i'r llys Troseddol a'r Awdurdod Lleol, yn adnabod SPOC yr Awdurdod Lleol fel yr unigolyn y mae angen iddo gyflwyno'r ddogfen (dogfennau)²⁴. Ar ben hynny, lle mae Llys y Goron yn cyfarwyddo felly²⁵, bydd y CPS, yn unol â'r Rheolau

²¹ R v H ac C [2004] 2 AC 134

²² Dan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996

²³ Adran 2 Deddf Gweithdrefn Troseddol (Presenoldeb Tystion) 1965

²⁴ Rheol 28.5(3)(a) Rheolau Gweithdrefn Droseddol 2013

²⁵ Rheol 28.5(3)(b)(i) Rheolau Gweithdrefn Droseddol 2013

Gweithdrefn Droseddol, yn cyflwyno'r cais i'r unigolyn mae'r ddogfen gyfrinachol yn perthyn iddo.

- 13.9. Lle mae unrhyw ddeunydd o'r Awdurdod Lleol a adolygir gan y CPS yn syrthio o fewn y prawf datgelu statudol dan y CPIA, bydd y CPS yn ysgrifennu at SPOC yr Awdurdod Lleol, o fewn 2 diwrnod gwaith o'r adolygiad pryd bynnag mae'n bosibl, yn cyflwyno'r rhesymau y dylai'r deunydd gael ei ddatgelu ac yn eu hysbysu o'r penderfyniad hwnnw. Defnyddir y ffurflen yn Atodiad E i'r protocol 2013 hwn gan y CPS. Bydd y CPS yn darparu cynigion i'r Awdurdod Lleol ar gyfer golygu neu grynhoi'r deunydd at ddibenion datgelu i'r amddiffyniaeth. Lle nad yw unrhyw ddeunydd yn gymwys i'w ddatgelu, bydd y CPS yn hysbysu'r Awdurdod Lleol mai dyna'r sefyllfa.
- 13.10. O fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn yr hysbysiad hwnnw, bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y cyfle i wneud unrhyw sylwadau mewn ysgrifen i'r CPS ar faterion datgelu. Bydd hyn yn cynnwys gwrthwynebiadau i ddatgeliad ar y sail nad yw'r unigolyn mae'r deunydd yn perthyn iddo wedi rhoi caniatâd. Sylwer y gellir gwneud datgeliad o ddogfennaeth a grëwyd â chefnogaeth, ac at ddibenion, yr LSCB, dim ond â chaniatâd blaenorol Cadeirydd yr LSCB²⁶.
- 13.11. Defnyddir y ffurflen yn Atodiad F i'r protocol 2013 hwn at y diben hwn. Lle, yn eithriadol, na all yr Awdurdod Lleol gwrdd â'r amserlen 5 diwrnod gwaith, bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r CPS er mwyn trafod a ellir ymestyn yr amserlen dan amgylchiadau neilltuol yr achos.

14. Cais Imiwnedd Budd y Cyhoedd (PII)

- 14.1. Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn cytuno i ddatgelu deunydd yr Awdurdod Lleol i'r amddiffyniaeth, mae'n rhaid i'r CPS drafod gyda'r Awdurdod Lleol er mwyn ystyried a ellir gwneud datgeliad ar ffurf olygedig neu drwy grynhoi, mewn dogfen arall, y materion sy'n codi yn y deunydd²⁷. Tra'n cydnabod bod rhaid i'r erlyniaeth gydymffurfio drwy'r amser â'i ddyletswydd statudol i ddatgelu, yn aml gellir tynnu'r sensitifrwydd yn ôl fel hyn. Bydd ceisiadau PII yn y llys troseddol yn brin. Nid yw deunydd yr Awdurdod Lleol ynghylch plentyn yn "ddosbarth" o ddeunydd mae PII yn perthyn iddo mwyach. Yn dibynnu ar sensitifrwydd y deunydd, gallai'r Awdurdod Lleol ei hunan gytuno bod budd y cyhoedd wrth erlyn troseddau'n drech na buddion cyfrinachedd²⁸. Mewn achosion eithriadol iawn, efallai y bydd angen i'r

²⁶ Er enghraifft, mae adroddiadau neu ddogfennaeth yn gysylltiedig ag Adolygiad Achos Difrifol yn perthyn i'r LSCB, yn hytrach na'r Awdurdod Lleol neu asiantaeth arall sy'n aelod o'r LSCB.

²⁷ R v H ac C [2004] 2 AC 134

²⁸ R v Prif Gwnstabl Gorllewin Canolbarth Lloegr ex parte Wiley [1995] 1 AC 274

CPS wneud datgeliad i'r amddiffyniaeth o'r ddogfen olygedig/gryno heb ganiatâd yr Awdurdod Lleol.

- 14.2. Os yw cais PII yn briodol, bydd y CPS yn gwneud cais PII i'r llys troseddol cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol. Bydd y CPS yn hysbysu'r Awdurdod Lleol o ddyddiad a lleoliad y cais PII a bydd yn hysbysu'r Awdurdod Lleol o'u hawl i wneud sylwadau o flaen y llys troseddol²⁹.
- 14.3. Lle ceisir PII ar sail diffyg caniatâd gan yr unigolyn mae'r ddogfen gyfrinachol yn perthyn iddo, mae'n rhaid i'r CPS, yn unol â'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol, hysbysu'r unigolyn mae'r ddogfen yn perthyn iddo³⁰ (fel uchod, hysbysiad o ddyddiad a lleoliad y cais PII a hawl yr unigolyn â budd i wneud sylwadau o flaen y llys).

²⁹ Rheol 22.3(b)(ii) Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2013

³⁰ Rheol 22.3(b)(ii) Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2013

Rhan C: Gwrandawiadau Cyfarwyddiadau Cysylltiedig

15. Gwrandawiadau cyfarwyddiadau troseddol a gofal cysylltiedig - meini prawf

- 15.1. Bydd y protocol 2013 hwn yn gymwys lle mae unigolyn a gysylltir â'r plentyn sy'n destun yr achos gofal neu'r plentyn ei hunan i'w roi ar ei brawf yn Llys y Goron ynghylch unrhyw drosedd treisgar neu rywiol neu ynghylch trosedd o greulondeb i blant yn erbyn y plentyn, neu unrhyw blentyn neu unigolyn arall a gysylltir â'r plentyn; ac naill ai:
- (i) Mae'r Awdurdod Lleol, y CPS, neu unrhyw barti i'r achos gofal (gan gynnwys gwarcheidwad y plentyn) yn ystyried bod yr achosion gofal a throseddol yn, neu y gallent, effeithio ar ei gilydd; neu
 - (ii) Mewn unrhyw achos cyfraith gyhoeddus yn yr Uchel Lys neu'r Llys Sirol neu mewn unrhyw achos yn Llys y Goron, mae barnwr yn fodlon bod y protocol yn, neu y gallai, berthyn.

16. Trefniadau ar gyfer gwrandawiadau cyfarwyddiadau cysylltiedig

- 16.1. Y barnwr a neilltuwyd i reoli achos yn y Llys Teulu (ACMJ)³¹ fydd yn ystyried a yw'n debygol y bydd angen gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig neu beidio ynghylch achosion troseddol a theuluol. Os yw'r ACMJ yn ystyried y bydd gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig yn debygol o fod yn briodol gall ef/hi gysylltu â'r Barnwr Preswyl er mwyn ei wahodd i enwebu barnwr a fydd yn gyfrifol am reoli'r achos troseddol.
- 16.2. Yn yr achos gofal disgwylir y bydd yr ACMJ yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer y gwrandawriad cysylltiedig a fydd yn egluro ymrwymadau'r partion priodol, ac a allai gynnwys, ond ni fyddant wedi'u cyfyngu i, recordiadau a, gorchmynion ar y ffurflen yn Atodiad I i'r protocol hwn(y mae eu defnydd gan y Llys Teulu'n orfodol). Ar yr un pryd, bydd yr ACMJ yn ystyried rhoi caniatâd i'r Awdurdod Lleol i gyflwyno ei grynodedb achos i'r CPS a Llys y Goron (yn unol â pharagraff 16.6 isod).

³¹ Yn y Llys Achosion Teuluol hwn fydd y cynghorydd cyfreithiol

- 16.3. Unwaith y mae barnwr wedi'i adnabod i reoli'r achos troseddol, bydd y Barnwr Preswyl yn cyfarwyddo'r swyddogion rhestru i gysylltu â rhestru teuluol er mwyn cytuno ar restriad yr achosion troseddol a gofal ar gyfer gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig o flaen y barnwr troseddol a enwebwyd a'r ACMJ. Mewn achos priodol gall y Barnwr Preswyl gytuno i'r ACMJ ymgymryd â'r cyfrifoldeb am reoli'r achos troseddol os oes ganddo/ganddi'r awdurdod i roi tramgwyddau troseddol ar eu prawf, a, lle mae'n briodol, achosion o drosedd rhywiol difrifol.
- 16.4. Os, ar ôl derbyn achos troseddol a anfonir o Lysoedd yr Ynadon ac ystyriaeth o'r achos hwnnw gan y Barnwr Preswyl, neu os, yn ystod gwrandawriad Rheoli Achos³² neu wrandawriad cyn-dreial arall a restrir o flaen Llys y Goron, mae'r Barnwr Preswyl neu'r barnwr (fel sy'n briodol) yn fodlon bod, neu y gall, y Protocol hwn fod yn gymwys ond na chyfeiriwyd eto at yr ACMJ i'w ystyried yn unol â pharagraff 16.1 uchod, bydd y barnwr yn hysbysu'r Barnwr Teuluol Dynodedig yn unol â hynny a fydd yn ystyried gyda'r Barnwr Preswyl perthnasol a'r ACMJ, a oes angen gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig. Os oes cytundeb ar yr angen am wrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig, bydd y Barnwr Preswyl yn enwebu barnwr i fod yn gyfrifol am reoli'r achos troseddol ac yna caiff trefniadau eu gwneud i'r achosion troseddol a gofal gael eu rhestru ar gyfer gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig yn unol â pharagraff 16.3 uchod.
- 16.5. Bydd yr achos troseddol yn cael ei restru o flaen y barnwr yn Llys y Goron yn gyhoeddus a chaiff yr apwyntiad cyfarwyddiadau cysylltiedig yn yr achos gofal ei restru i'w wrando'n breifat yn syth wedyn. Yn amodol ar unrhyw wrthwynebiadau penodol a godir gan y partion, gellid gwahodd yr adfocadau sy'n ymddangos yn yr achos troseddol i aros yn ystod yr apwyntiad cyfarwyddiadau cysylltiedig yn yr achos gofal.
- 16.6. Ym mhob achos sy'n cynnwys gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig bydd cynrychiolydd cyfreithiol yr Awdurdod Lleol, **heb fod yn hwyrach na 4.00pm a heb fod yn llai na 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig**, â chaniatâd y llys teulu, yn paratoi a chyflwyno i'r CPS a Llys y Goron grynodedig achos i osod sail cais yr Awdurdod Lleol, ei gynnwys ynghylch canfyddiadau a geisir ynglŷn â'r "meini prawf trothwy" ("dogfen drothwy" yr Awdurdod Lleol), y sefyllfa bresennol ynghylch y plentyn, manylion yr asesiadau arfaethedig ac/neu asesiadau arbenigwr(wyr) sy'n cael eu gwneud a'r amserlenni ar gyfer y rhain a'r amserlen (os oes un) a osodir ar gyfer yr achos o fewn y Llys Teulu

³²Bydd Gwrandawriadau Rheoli Achos yn Llys y Goron yn cynnwys Gwrandawriadau Rhagarweiniol a Gwrandawriadau Pledio a Rheoli Achos

- 16.7. Bydd cynrychiolydd cyfreithiol yr Awdurdod Lleol a'r CPS yn cytuno ar atodlen o faterion i adnabod y materion hynny sy'n debygol o gael eu hystyried yn y gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cylchredeg yr Atodlen i'r cyfreithwyr dros y partiön eraill yn yr achosion troseddol a gofal **erbyn 4.00 ar yr hwyraf heb fod yn llai na 2 ddiwrnod gwaith cyn y gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig.**
- 16.8. Ar ddiwrnod y gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig bydd yr adfocadau yn yr achosion troseddol a gofal yn cwrdd **heb fod yn hwyrach nag un awr cyn yr amser penodedig ar gyfer y gwrandawriad** er mwyn trafod yr atodlen o faterion â golwg ar adnabod pa gyfarwyddiadau a allai fod yn angenrheidiol gan gyfeirio'n benodol at amserlen y treial, datgelu a chyingor arbenigol a'r fath faterion eraill a allai gael eu hadnabod gan y Protocol hwn.
- 16.9. Caiff y ffeiliau llys priodol yn yr achosion troseddol a gofal eu croes-gyfeirio a chânt eu nodi'n glir fel achosion "cysylltiedig".
- 16.10. Bydd y gwrandawriad cyfarwyddiadau wedi'i gysylltu ond heb fod wedi'i gyfuno'n gyfangwbl oherwydd y partiön gwahanol a'r rheolau gweithdrefnol gwahanol (fel ynghylch preifatrwydd a hawliau i gael eich clywed) sy'n perthyn. Bydd y barnwr yn penderfynu a yw'n briodol i rai neu'r cyfan o'r cyfarwyddiadau gael eu cyhoeddi mewn gwrandawriad ar y cyd neu ar wahân a threfn unrhyw gyfarwyddiadau i'w cyhoeddi.
- 16.11. Ar ddiwedd y gwrandawriad yn yr achos troseddol, gwahoddir y cwnsler dros y Goron i dynnu cofnod y drefn, i'w gytuno gyda'r amddiffyniaeth, a gaiff ei gyflwyno i'r barnwr ar ddiwrnod y gwrandawriad, iddo/iddi ei chymeradwyo.
- 16.12. Caiff cofnod y drefn a gymeradwywyd yn yr achos troseddol ei chopio i'r partiön yn yr achos gofal gan y CPS.
- 16.13. Â chaniatâd y llys teulu, caiff y drefn a wneir yn yr achos gofal ei chopio gan yr Awdurdod Lleol i'r CPS a chyfreithwyr yr amddiffyniaeth yn yr achos troseddol.
- 16.14. Dylai amserlen y trafodion mewn achos gofal a throseddol cysylltiedig ymddangos yn yr Amserlen ar gyfer y Plentyn³³.
- 16.15. **Parhad barnwrol:** Bydd unrhyw wrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig wedi'i ohirio'n cael ei restru o flaen yr un barnwr (oni bai bod y barnwr yn cyfarwyddo fel arall) ond ni fydd y barnwr sy'n ACMJ yn llywyddu dros y treial yn yr achos troseddol, nag yn traddodi dedfryd os oes ple euog, ni fydd y barnwr ychwaith yn rhoi "Arwydd

³³ Yn unol â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Goodyear ”. Bydd y barnwr yn yr achos troseddol neu sy'n traddodi dedfryd os oes ple euog yn hysbysu'r ACMJ o'r canlyniad.

17. Materion i'w hystyried yn y gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig

- 17.1. Yr amserlennu³⁴ o'r achosion troseddol a gofal fel ei gilydd (â'r bwriad y byddai'r fath amserlennu'n cael ei gydgyssylltu er mwyn sicrhau'r drefn fwyaf priodol i'r treial a bod pob achos yn cael ei wrando cyn gynted â phosibl).
- 17.2. Datgelu tystiolaeth gan gyfeirio'n neilltuol at ddatgelu tystiolaeth o'r naill set o drafodion i'r llall gyda'r fath ganiatâd a allai fod yn ofynnol yn ôl y rheolau gweithdrefnol perthnasol.
- 17.3. Cyngor arbenigol gan gyfeirio'n neilltuol at adnabod tystion arbenigol, eu parodrwydd i weithredu o fewn amserlen y llys a'r gofynion Cyfarwyddyd Ymarfer ynghylch hyfforddi Arbenigwyr, eu hargaeledd a'u rôl yn y gwrandawriadau troseddol a gofal.
- 17.4. Unrhyw gyfarwyddiadau i'w rhoi mewn cysylltiad â materion o imiwnedd budd y cyhoedd ac ar gyfer unrhyw wysion i dystion sy'n ofynnol ar gyfer datgeliad gan drydydd parti (Rheol 28 Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2013).
- 17.5. Trefniadau ar gyfer cyfweld plant mewn gofal at ddibenion achos troseddol ac unrhyw drefniadau i'r plentyn roi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawriad troseddol neu deuluol.
- 17.6. I sicrhau lle mae'n briodol bod trawsgrifiad o dystiolaeth neu ddyfarniad perthnasol yn y treial a glywir yn gyntaf o ran amser ar gael yn yr achos dilynol.
- 17.7. Materion sy'n perthyn i unrhyw gwestiwn o asesu neu fewnbwn therapiwtig sy'n ofynnol i unrhyw belntyn a gysylltir â'r achos.
- 17.8. Materion mewn cysylltiad â chyfyngiadau ar gyhoeddusrwydd yr ystyrir y gallent fod yn ofynnol.
- 17.9. Materion mewn cysylltiad ag unrhyw ddeunydd perthnasol a allai fod yn gymwys i'r mater o gymeriad drwg (ynghylch collfarnau blaenorol

³⁴Mae Parthed TB [1995] 2 FLR 801 yn ei wneud yn glir y tu hwnt i bob amheuaeth mai'r man cychwyn yw nad yw bodolaeth achos troseddol yn rheswm i ohirio'r achos gofal. Am eithriad gweler:

Re L [2010] 1 FLR 790: dan yr amgylchiadau neilltuol, dylai cam lles yr Achos Teuluol fod wedi'i ohirio tan ar ôl yr achos troseddol

neu “ymddygiad gresynus” honedig arall), ai ynghylch diffynyddion neu bobl nad ydynt yn ddiffynyddion.

- 17.10. Camau cyfreithiol neu gysylltiedig â gwaith cymdeithasol eraill yn yr achos Llys Teulu.

18. Adolygiad

- 18.1. Bydd y partïon i'r protocol 2013 hwn a'r Model Arfer Da a'r sefydliadau ym mharagraffau 1.1 ac 1.2 uchod sy'n cefnogi'r protocol 2013 yn adolygu a monitro gweithredu'r darpariaethau'n barhaus. Bydd y protocol yn destun adolygiad ffurfiol 12 mis ar ôl y dyddiad cyflawni.

19. Protocolau Lleol

- 19.1. Dylai asiantaethau lleol gytuno a mabwysiadu protocol lleol i roi effaith i'r Protocol 2013 hwn a lofnodir gan Farnwyr Preswyl Llys y Goron, Barnwyr Teulu Dynodedig, Lluoedd Heddlu, y CPS ac Awdurdodau Lleol ym mhob ardal CPS. Mae'n rhaid nad yw protocol lleol yn gwyro oddi wrth ofynion y PLO ac mae'n rhaid iddo fynnu bod trefniadau a ddefnyddir ar y ffurf a geir yn Atodiad H ac Atodiad I.
- 19.2. Bydd pob llofnodwr Llu Heddlu i'r protocol lleol yn darparu ar y ffurflen yn Atodiad A fanylion un man cyswllt (SPOC) i dderbyn cais am ddatgeliad Atodiad D oddi wrth yr Awdurdod Lleol trwy e-bost diogel.
- 19.3. Bydd pob llofnodwr Awdurdod Lleol i'r protocol lleol yn darparu ar y ffurflen yn Atodiad B fanylion un man cyswllt (SPOC) i dderbyn cais am ddatgeliad Atodiad C oddi wrth yr heddlu trwy e-bost diogel.

20. Llofnodwyr

20.1. Mae'r dilynol yn llofnodwyr i'r protocol:

Dyddiad y cytundeb: **17 Hydref 2013**

Uwch Farnwr Llywyddol ar gyfer Cymru a Lloegr
Yr Arglwydd Ustus
Gross.....

Llywydd yr Adran Deulu
Y Gwir Anrhydeddus Syr James
Munby.....

Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus
Gwasanaeth Erlyn y Goron
Keir Starmer QC [Cwnsler y Frenhines].....

Mae'r dilynol yn cefnogi'r protocol:

Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu, Cymdeithas Cyfarwyddwyr
Gwasanaethau Plant, Cymdeithas Cadeiryddion Byrddau Lleol
Annibynnol Diogelu Plant, Yr Adran Addysg, Gwasanaeth
Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, Cymdeithas Llywodraeth Leol,
Llywodraeth Cymru.

Atodiadau

Atodiad A - Manylion ynghylch cysylltiadau sengl o fewn lluoedd heddlu

| | |
|---|---|
| Llu Heddlu: Enw: Ffôn: Ffacs: E-bost diogel: | Llu Heddlu: Enw: Ffôn: Ffacs: E-bost diogel: |
| Llu Heddlu: Enw: Ffôn: Ffacs: E-bost diogel: | Llu Heddlu: Enw: Ffôn: Ffacs: E-bost diogel: |
| Llu Heddlu: Enw: Ffôn: Ffacs: E-bost diogel: | Llu Heddlu: Enw: Ffôn: Ffacs: E-bost diogel: |
| Llu Heddlu: Enw: Ffôn: Ffacs: E-bost diogel: | Llu Heddlu: Enw: Ffôn: Ffacs: E-bost diogel: |

Atodiad B - Manylion ynghylch un pwynt cyswllt o fewn adrannau cyfreithiol awdurdodau lleol

| | |
|--|--|
| <p>Awdurdod Lleol:</p> <p>Enw:</p> <p>Ffôn:</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> | <p>Awdurdod Lleol:</p> <p>Enw:</p> <p>Ffôn:</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> |
| <p>Awdurdod Lleol:</p> <p>Enw:</p> <p>Ffôn:</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> | <p>Awdurdod Lleol:</p> <p>Enw:</p> <p>Ffôn:</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> |
| <p>Awdurdod Lleol:</p> <p>Enw:</p> <p>Ffôn:</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> | <p>Awdurdod Lleol:</p> <p>Enw:</p> <p>Ffôn:</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> |
| <p>Awdurdod Lleol:</p> <p>Enw:</p> <p>Ffôn:</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> | <p>Awdurdod Lleol:</p> <p>Enw:</p> <p>Ffôn:</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> |

Atodiad C - Amddiffyn Plant: cais am ddatgeliad o ddeunydd

| | | | |
|--|--|--|--|
| 1. Mae'r Heddlu'n cynnal ymchwiliad troseddol i honiadau a wnaed yn erbyn yr unigolion dilynol:- | | | |
| ENW: | | | |
| CYFEIRIAD: | | | |
| DYDDIAD GENI: | | | |
| 2. Mae amgylchiadau'r honiadau fel sy'n dilyn: (Atodwch grynodeb yr achos, datganiadau gan dystion allweddol, adroddiadau gan arbenigwyr fel sy'n briodol) | | | |
| | | | |
| 3. Manylion plentyn/plant sy'n gysylltiedig â'r honiadau | | | |
| Enw: | | | |
| Cyfeiriad | | | |
| Dyddiad Geni: | | | |
| Perthynas â'r trosedd wr(wyr) | | | |
| Dioddefwr neu dyst | | | |
| Gweithiwr cymdeit hasol | | | |
| Ysgol(ion) a fynychw yd (gyda dyddiad au) | | | |
| 4. Credaf ei fod yn bosibl bod eich Awdurdod Lleol yn dal y deunydd dilynol ynghylch y troseddwr(wyr) neu'r plentyn/plant uchod a allai fod yn berthnasol i'm hymchwiliad. [Disgrifiwch y deunydd yn fanwl iawn, pennwch gyfnodau amser perthnasol, | | | |

| | |
|--|---------------------------------|
| cyfeiriadau perthnasol, ysgolion a fynychwyd ac ati] | |
| <p>Caiff unrhyw ddeunydd a geir gennym ei drin fel deunydd sensitif yn unol â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996. Yn unol â pharagraff 3.5 Cod Ymarfer CPIA, mae dyletswydd arnom i ddilyn pob llwybr resymol o ymholi, p'un ai a yw hyn yn pwyntio tuag at y rhai a amheuir neu oddi wrthynt. Mae'r fath lwybrau ymholi'n cynnwys ceisio mynediad i'r deunydd uchod y gallech fod yn ei ddal. Gallai'n hymchwiliad gael ei beryglu neu ei oedi os na chaniateir inni gyrchu'r deunydd.</p> <p>Yn unol â Protocol Ardal ... parthed cyfnewid gwybodaeth mewn achosion o gam-drin plant, hoffem ofyn i drefniadau gael eu gwneud inni archwilio'r deunydd uchod. Mae'n rhaid na threfnir bod unrhyw ddeunydd sy'n perthyn i Achos Llys Teulu ar gael ac eithrio â chaniatâd y Llys neu'n unol â Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010</p> | |
| <p>5. Dan amgylchiadau'r ymchwiliad hwn, mae'n bwysig y gwneir trefniadau inni archwilio'r deunydd erbyn:</p> <p style="text-align: center;">[Dyddiad]</p> | |
| <p>Y cam sydd wedi'i gyrraedd yn yr ymchwiliad: Please select</p> | |
| <p>Dyddiad y gwrandawriad Llys nesaf:</p> | |
| <p>Manylion cyswllt erlynydd y CPS:</p> | |
| <p>Swyddog: Dyddiad:</p> | <p>Gorsaf Yr Heddlu:</p> |
| <p>Ffôn: E-bost diogel:</p> | <p>Ffacs:</p> |
| <p>A yw'r swyddog yn gwasanaethu mewn uned amddiffyn plant neu uned i bedoffilyddion?: os gwelwch yn dda selecte</p> | |

Atodiad D - Ffurflen gais safonol ar gyfer datgeliad o wybodaeth gan yr heddlu

| <u>FFURFLEN GAIS SAFONOL AR GYFER DATGELIAD O WYBODAETH GAN YR HEDDLU</u> | |
|--|--|
| <u>YN YMGORFFORI YMATEB YR HEDDLU</u> | |
| [Dylid cwblhau'r ffurflen hon yn unol â'r protocol a gytunwyd] | |
| Ni ddatgelir gwybodaeth yr Heddlu oni bai bod ystyriaethau pwysig ynghylch budd y cyhoedd i gyfiawnhau ymadael â'r rheol gyffredinol ynghylch cyfrinachedd. Mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys amddiffyn aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed. Darperir y wybodaeth isod ar y ddealltwriaeth lem bod y fath wybodaeth ar gyfer yr achos cyfredol yn unig. Caiff ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei defnyddio at unrhyw ddibenion eraill. | |
| CAIS AM WYBODAETH | |
| Yr Unigolyn sy'n Ceisio am Wybodaeth | Enw: Teitl Swydd: Rhif ffôn: E-bost diogel: |
| Dyddiad y Cais | |
| Cyflwyno'r Achos yn: (os yw wedi cychwyn) | os gwelwch yn dda selecte |
| Rhif yr Achos: | |
| Enwau'r holl bartïon i'r achos a chynrychiolwyr cyfreithiol: | |
| Dyddiad y gwrandawriad nesaf: | |
| Adroddiadau arbenigol i'w paratoi gan: | |
| Dylid gwneud rhybudd o flaen llaw o achos teuluol ac unrhyw gais [am wybodaeth] [i ddangos argaeledd] gwybodaeth cyn gynted â phosibl ac o leiaf | |

| | | |
|--|---|---|
| 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad cyfarwyddiadau perthnasol | | |
| Mae angen y Wybodaeth erbyn: | Dylid derbyn gwybodaeth o leiaf 5 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y gwrandawriad | |
| Pwrpas y Wybodaeth | os gwelwch yn dda selecte | |
| Cais am Ddatgeliad o Ddeunydd a ddelir gan | | |
| CAIS AM WYBODAETH AM YR UNIGOLYN(UNIGOLION) DILYNOL: | | |
| 1. ENW (Cyflawnwr(wyr) honedig): | Dyddiad Geni: | Cyfeiriad: |
| | | |
| 2. ENW'R PARTI/RHIANT ARALL [os yn gymwys]: | Dyddiad Geni: | Cyfeiriad: |
| | | |
| 3. ENW(AU)'R PLENTYN(PLANT) / (DIODDEFWR(WYR) HONEDIG): | Dyddiad Geni: | PERTHYNAS Â'R CYFLAWNWR HONEDIG: |
| 1. 2. 3. | 1. 2. 3. | 1. 2. 3. |
| 4. MANYLION CRYNO (GAN GYNNWYS DYDDIAD A LLE) AMGYLCHIADAU'R DIGWYDDIAD(AU) MAE ACHOS TEULUOL YN CAEL EI GYCHWYN/YSTYRIED YN EI/EU CYLCH: | | |
| | | |
| 4. CYFEIRNOG Y TROSEDD | | |

| | |
|--|--|
| 5. ENW A RHIF COLER Y SWYDDOG(ION): | |
| 6. MANYLION CRYNO (GAN GYNNWYS DYDDIAD A LLE) Y DIGWYDDIAD(AU) PENODOL Y CEISIR GWYBODAETH YN EI/EU CYLCH: | |
| | |
| 7. NATUR Y DOGFENNAU, COFNODION NEU DDEUNYDD TYSTIOLAETHOL ARALL Y CEISIR AMDANYNT A'U PERTHASEDD I'R ACHOS SIFIL/TEULUOL A NODIR UCHOD: (Rhestrwch ddogfennau mor fanwl â phosibl e.e. cyfweliad y tad, datganiad y fam, cyfweliad fideo'r chwaer, ac ati) <i>Dylai'r Heddlu nodi pob un sydd ar gael nawr a chwblhau adran 19 isod ar gyfer y rhai hynny nad ydynt ar gael.</i> | Datgeliad Ar Gael? (Dylai'r Heddlu ei gwblhau ar gyfer pob un) |
| | |
| 8. AWGRYM O'R CYFARWYDDIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER DATGELIAD SY'N DEBYGOL O GAEL EU GWNEUD (GAN GYNNWYS Y DYDDIAD Y BYDD ANGEN Y DOGFENNAU GWIRIONEDDOL): (rhestrwch y cyfarwyddiadau neu atodwch orchymyn drafft ar gyfer y cyfarwyddiadau) | |
| | |
| 9. A YW'R DYDDIAD WEDI'I OSOD AC OS FELLY PA DDYDDIAD AR GYFER UNRHYW Please select AC A YW'N DEBYGOL Y BYDD ANGEN I SWYDDOG(ION) SY'N GYSYLLTIEDIG ROI TYSTIOLAETH APlease select , Please select, SWYDDOG(ION)Please select. | |
| ENW'R UNIGOLYN SY'N GWNEUD Y CAIS: | |
| AR RAN: (ENW'R PARTI/SEFYDLIAD AC ATI) | |

Atodiad E - Amddiffyn plant: hysbysiad i awdurdod lleol gan erlynydd bod deunydd yn diwallu prawf datgelu CPIA

| AMDDIFFYN PLANT: HYSBYSIAD I AWDURDOD LLEOL GAN ERLYNYDD BOD DEUNYDD YN DIWALLU PRAWF DATGELU CPIA | | |
|---|------------------------|-----------------------------|
| Byddwch yn ymwybodol bod yr heddlu wedi archwilio deunydd a ddelir gan eich Awdurdod yn ddiweddar yn yr achos dilynol:- | | |
| | ENW | DYDDIAD GENI |
| Prif Ddiffynydd | | |
| Prif Ddiodefwr sy'n Blentyn | | |
| Rwyf wedi derbyn y deunydd yn unol â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996. Sylwer, yn unol ag Adran 3 CPIA, mae'r deunydd dilynol yn gymwys i'w ddatgelu i'r amddiffyniaeth gan y gall danseilio achos yr erlyniaeth neu gynorthwyo yr achos dros y cyhuddedig. | | |
| Dogfen Cyfeirnod | Disgrifiad | Y rheswm am ddatgelu |
| | | |
| | | |
| | | |
| Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn dangos, ynghylch pob eitem a restrir uchod a) a oes gennych wrthwynebiadau i ddatgeliad, b) nad oes gennych wrthwynebiadau i ddatgeliad yn amodol ar olygu priodol, c) rydych yn gwrthwynebu datgeliad (ac os hynny ni fyddaf yn gwneud datgeliad yn amodol ar unrhyw orchymyn Lllys). | | |
| Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn | | |
| Erlynydd: | Enw: Ffôn Ffacs: | |

| | |
|-----------------|----------------|
| | E-bost diogel: |
| Dyddiad: | |

Atodiad F - Hysbysiad amddiffyn plant gan awdurdod lleol: sylwadau ar ddatgelu

| AMDDIFFYN PLANT HYSBYSIAD I'R ERLYNYDD GAN YR AWDURDOD LLEOL: SYLWADAU AR DDATGELIAD | |
|--|---|
| <p>Rwyf yn diolch ichi am eich hysbysiad dyddiedig yn awgrymu bod deunydd penodol yr Awdurdod Lleol yn diwallu'r prawf datgelu yn Adran 3 CPIA.</p> | |
| <p>Mae gennyf y sylw dilynol ynghylch datgeliad arfaethedig i'r amddiffyniaeth.</p> <p>(Dangoswch ynghylch pob eitem a) y cytunir â datgeliad b) y cytunir â datgeliad yn amodol ar olygu (pennwch ble mae'n briodol) c) na chytunir â datgeliad, gyda rhesymau e.e. absenoldeb caniatâd gan yr unigolyn mae'r ddogfen yn perthyn iddo)</p> | |
| a) Cytunir â datgeliad | |
| Eitem | Sylw |
| | |
| b) Cytunir â datgeliad yn amodol ar olygu | |
| Eitem | Sylw |
| | |
| c) Ni chytunir â datgeliad | |
| Eitem | Sylw |
| | |
| <p>Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol: Choose Local Authority</p> | <p>Enw:</p> <p>Ffôn</p> <p>Ffacs:</p> <p>E-bost diogel:</p> |

Atodiad G - Tystiolaeth ar dâp fideo o ymgymeriad cyfrinachedd tyst sy'n blentyn

AR { Cyfreithiwr } yn ymgymryd

- 1 I beidio ag achosi i unrhyw gopïau pellach gael eu gwneud o'r tapiau*
- 2 I gadw'r tapiau mewn cynhwysydd diogel, wedi'i gloi pan nad ydynt yn cael eu ddefnyddio neu ar daith
- 3 I ddefnyddio ei (h)ymdrechion gorau i sicrhau y cedwir y tapiau o fewn gwarchodaeth bersonol un oedolyn pan ydynt ar daith ac i beidio â danfon y tâp i'r Swyddfa Bost neu unrhyw gludydd masnachol
- 4 I ryddhau'r tapiau dim ond i:
 - (1) Cwnsler a gyfarwyddir yn yr achos
 - (2) unrhyw arbenigwr ag awdurdod y llys i baratoi adroddiad i'w ddefnyddio gan y llys
 - (3) unrhyw unigolyn arall dim ond â chaniatâd y llys
- 5 I fynnu bod unrhyw unigolyn mae'r tapiau'n cael eu rhyddhau iddo yn llofnodi math o ymgymeriad â'r un telerau â'r ymgymeriad hwn.
- 6 I ddefnyddio ei (h)ymdrechion gorau i sicrhau y dychwelir y tapiau i'w (f)meddiant personol o fewn 28 diwrnod o'u rhyddhau i unrhyw unigolyn
- 7 I ganiatáu i'w (g)chleient weld y tapiau yn ei safle proffesiynol ac yn ei (b)phresenoldeb yn unig
- 8 I ganiatáu i bartïon eraill i'r achos weld y tapiau ym mhresenoldeb cynghorwr cyfreithiol y parti hwnnw yn safle proffesiynol cynghorwr cyfreithiol un o'r partïon
- 9 I ddychwelyd y tapiau i'r heddlu, neu drefnu iddynt gael eu dinistrio'n ddiogel a chyfrinachol, ar unwaith wrth iddo/iddi beidio â chael ei (g)chyfarwyddo yn y mater hwn a beth bynnag wrth i'r achos gau
- 10 I gadw cofnod ysgrifenedig o enw unrhyw unigolyn y caniateir mynediad i'r tapiau iddo a dyddiad y fath fynediad

*ac eithrio'r rhai hynny a restrir yng nghymal 5

Atodlen o unigolion sydd wedi gweld y tapiau yn unol â'r ymgymeriad hwn

| Disgrifiad y tâp (gan gynnwys y rhif id) | Gan bwy | Ym mhresenoldeb (lle mae'n berthnasol) | Dyddiad ei weld /ryddhau | Dyddiad dychwelyd | Yr ymgymeriad a roddwyd |
|--|---------|--|--------------------------|-------------------|-------------------------|
| | | | | | |

Llofnod:

Dyddiad:.....

Tâp wedi'i ddychwelyd i warchodaeth yr heddlu/wedi'i ddinistrio'n ddiogel ar

.....

Llofnod:

Dyddiad:

Atodiad H - Cyfarwyddyd ar ddatgelu i'r heddlu



Yn y Llys
Yn eistedd yn [Lle]

Rhif:

Deddf Plant 1989

Y Protocol ynghylch datgelu gwybodaeth mewn achosion honedig o gam-drin plant a gwrandawriadau cyfarwyddiadau troseddol a gofal cysylltiedig dyddiedig [dd/mm] 2013 ("Y Protocol")

Priodas/Partneriaeth Sifil/Perthynas/Teulu XX ac YY

Y Plant AA (bachgen/merch a anwyd ar dd/mm/bbbb)

BB (bachgen/merch a anwyd ar dd/mm/bbbb)

CC (bachgen/merch a anwyd ar dd/mm/bbbb)

Addaswch fel sy'n briodol

Ar ôl y gwrandawriad [*enw'r adfocad(au) a ymddangosodd*]....

Ar ôl ystyried y dogfennau a gyflwynwyd gan y Partïon

GORCHYMYN A WNEIR GAN [ENW'R BARNWR] AR [DYDDIAD] YN EISTEDD MEWN LLYS AGORED/PREIFAT

Y Partïon

1. Yr ymgeisydd yw XX ("Yr Awdurdod Lleol")
Yr ymatebydd yw YY
Yr ail ymatebydd yw ZZ
Pennwch a yw unrhyw barti'n gweithredu trwy ffrind ymgyfreitha
Y trydydd ymatebydd yw AA (yn gweithredu trwy ei (g)warcheidwad FF)
Y trydydd ymatebydd yw BB (yn gweithredu trwy ei (g)warcheidwad FF)
Y pedwerydd ymatebydd yw CC (yn gweithredu trwy ei (g)warcheidwad FF)
Dilëwch neu addasu fel sy'n briodol

Croniciadau

2. Mae hwn yn orchymyn i wybodaeth gael ei darparu i'r llys hwn gan [*enw'r llu heddlu*].
3. Y rheswm y gwneir y cais hwn am wybodaeth yw [*pennwch*].
4. Gwnaed y gorchymyn hwn mewn gwrandawriad [heb rybudd]/[ar rybudd anffurfiol byr] i'r [*enw'r llu heddlu*]. Y rheswm y gwnaed y gorchymyn [heb rybudd]/[ar rybudd anffurfiol byr] i'r [*enw'r llu heddlu*] oedd [nodwch]. Mae gan [*enw'r llu heddlu*] yr hawl i wneud cais i'r llys i amrywio neu ollwng y

gorchymyn – gweler “Yr hawl i geisio amrywiad neu ollyngiad o’r gorchymyn hwn” isod

GORCHMYNNIR (TRWY GANIATÂD):

5. Bydd [Comisiynydd yr Heddlu Metropolitan] / [Prif Gwnstabl Heddlu [enw]] erbyn 16:00 ar [dyddiad heb fod cyn 28 diwrnod o ddyddiad y gorchymyn] yn datgelu i’r Awdurdod Lleol y wybodaeth ddilynol:

Mae’r dilynol yn enghreifftiau:

- (a) Copiau o gofnodion galw-allan yr heddlu a chofnodion ynghylch [], dyddiad geni [], a [], dyddiad geni [], yn [cyfeiriad(au)] rhwng y dyddiadau [] a [].
 - (b) Tystiolaeth ynghylch yr honiadau a wnaed gan [] yn erbyn [], dyddiad geni [], o [cyfeiriad] yn cynnwys pob datganiad a wnaed a phob llun a dynnwyd mewn cysylltiad â’r honiadau.
 - (c) Copi o unrhyw gyfweiliad a wnaed ar dâp fideo o [], dyddiad geni [], ar [dyddiad] gyda chopi o unrhyw drawsgrifiad sydd ar gael o’r cyfweiliad hwnnw ar ôl ei gwblhau.
 - (d) Copi o unrhyw gyfweiliad a wnaed ar dâp sain o [], dyddiad geni [], ar [dyddiad] gyda chopi o unrhyw drawsgrifiad sydd ar gael o’r cyfweiliad hwnnw ar ôl ei gwblhau.
6. Bydd yr Awdurdod Lleol [neu barti arall a enwir] yn cyflwyno copi o’r gorchymyn hwn i [pennwch y swyddog heddlu perthnasol] gyda llythyr sy’n gosod, ynglŷn â’r cyfreithwyr yn cynrychioli pob parti, enw llawn y cwmni, cyfeiriad post llawn, a chyfeirnod yr unigolyn yn y cwmni hwnnw sy’n delio â’r mater, yn rhoi ei (g)chyfeiriad e-bost a rhif ffôn uniongyrchol.
7. Bydd yr Awdurdod Lleol [neu barti arall a enwir] yn ffeilio’r dystiolaeth uchod gyda’r llys hwn a’i chyflwyno i’r partïon eraill erbyn 16:00 ar [dyddiad].
8. Ar ôl ei darparu gellir defnyddio’r wybodaeth at ddibenion yr achos hwn yn unig ac mae’n rhaid peidio â’i datgelu i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd pendant y llys hwn.

Yr hawl i geisio amrywiad neu ollyngiad o’r gorchymyn hwn

9. *(Lle gwnaed y gorchymyn ar ddim rhybudd neu rybudd byr)* Gall [Comisiynydd yr Heddlu Metropolitan] / [Prif Gwnstabl Heddlu [enw]] wneud cais am amrywiad neu ollyngiad o’r gorchymyn hwn, ar ôl rhoi dau ddiwrnod busnes clir o rybudd o’r gwrandawriad i’r partïon, erbyn 16:00 ar [dyddiad heb fod yn hwyrach nag 14 diwrnod o ddyddiad y gorchymyn].

Dyddiedig

Atodiad I - Cyfarwyddiadau troseddol a gofal cysylltiedig



Yn y Llys
Yn eistedd yn [Lle]

Rhif:

Deddf Plant 1989

Y Protocol ynghylch datgelu gwybodaeth mewn achosion honedig o gam-drin plant a gwrandawriadau cyfarwyddiadau troseddol a gofal cysylltiedig dyddiedig [dd/mm] 2013 (“Y Protocol”)

Priodas/Partneriaeth Sifil/Perthynas/Teulu XX ac YY

Y Plant AA (bachgen/merch a anwyd ar dd/mm/bbbb)
 BB (bachgen/merch a anwyd ar dd/mm/bbbb)
 CC (bachgen/merch a anwyd ar dd/mm/bbbb)

Addaswch fel sy'n briodol

Ar ôl y gwrandawriad [*enw'r adfocad(au) a ymddangosodd*]....

Ar ôl ystyried y dogfennau a gyflwynwyd gan y Partïon

GORCHYMYN A WNEIR GAN [ENW'R BARNWR] AR [DYDDIAD] YN EISTEDD MEWN LLYS AGORED/PREIFAT

Y Partïon

1. Yr ymgeisydd yw XX (“Yr Awdurdod Lleol”)
Yr ymatebydd yw YY
Yr ail ymatebydd yw ZZ
Pennwch a yw unrhyw barti'n gweithredu trwy ffrind ymglyfreitha
Y trydydd ymatebydd yw AA (yn gweithredu trwy ei (g)warcheidwad FF)
Y trydydd ymatebydd yw BB (yn gweithredu trwy ei (g)warcheidwad FF)
Y pedwerydd ymatebydd yw CC (yn gweithredu trwy ei (g)warcheidwad FF)
Dilëwch neu addasu fel sy'n briodol

Croniciadau

2. Mae [*enw*] wedi'i (g)chyhuddo o [*pennwch y troseddau honedig ac yn erbyn pwy y cawsant eu cyflawni*] y pliodd ef/hi'n ddieuog iddynt ar [*dyddiad*] a rhestrir yr achos dan rif achos [xxx] ar gyfer [treial]/[ple a rheoli achos] ar [*dyddiad*] yn Llys y Goron [*enw*].
3. Gwnaeth y llys hwn orchymyn cyfarwyddo datgeliad yr heddlu ar [*dyddiad*]. [Cydymffurfiwyd â'r] [Disgwylir y cydymffurfir â'r] gorchymyn ar/erbyn [*dyddiad*].

4. (*er enghraifft*) [Bydd] / [Mae] ZZ yn cael ei asesu gan Dr [enw], Seiciatrydd Ymgynghorol, er mwyn paratoi am y Gwrandawriad Ple a Rheoli Achos ar [dyddiad].
5. Cydnabyddir y bydd y CPS yn ceisio datgeliad o'r papurau o'r achos hwn [ac o'r achosion blaenorol] ynghylch [*enwau'r plant*] plant [enw] a [enw] [ymadawedig] yn ogystal â dogfennau a ddelir gan yr Awdurdod Lleol ar ei ffeiliau Gwasanaethau Cymdeithasol.
6. Disgwylir y bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau y trefnir bod copi o'r Protocol ar gael i gyfreithiwr y CPS gyda rheolaeth yr achos troseddol a chyfreithiwr(wyr) yr amddiffyniaeth (a fydd yn ei ddarparu i'r cwnsler a gyfarwyddwyd).

Cais

7. Yn unol â Rhan C y Protocol mae'r llys hwn yn ystyried bod gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig yn briodol. Trwy'r gorchymyn hwn mae'r llys hwn yn gofyn bod y Barnwr Preswyl yn enwebu barnwr a fydd yn gyfrifol am reoli'r achos troseddol â golwg ar restru gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig yn Llys y Goron [enw] o flaen y barnwr a enwebwyd a'r Barnwr Reoli Achos Dynodedig yn yr achos hwn sef [enw].

GORCHMYNNIR (TRWY GANIATÂD):

8. Rhestrir yr achos hwn a'r achos troseddol ar gyfer gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig am 10.00am ar [dyddiad] o flaen Ei (H)Anrhydedd y Barnwr [enw] ac Ei (H)Anrhydedd y Barnwr [enw] yn eistedd yn Llys y Goron [enw], [*cyfeiriad*] (amcangyfrif 1 awr).
9. Bydd yr Awdurdod Lleol, erbyn 14:00 ar [dyddiad], yn cyflwyno i Lys y Goron, y CPS a chyfreithwyr yr amddiffyniaeth, grynodedb o'r achos fel a nodir ym mharagraff 17.6 y Protocol, a bydd yn ffeilio a chyflwyno copi ohono yn yr achos hwn.
10. Yn unol â pharagraff 17.7 y Protocol bydd yr Awdurdod Lleol a'r CPS yn cytuno ar atodlen o faterion, yn nodi'r materion hynny sy'n debygol o gael eu hystyried yn y gwrandawriad cyfarwyddiadau cysylltiedig a bydd yr Awdurdod Lleol yn cylchredeg yr atodlen i'r cyfreithwyr dros y partïon eraill yn yr achosion troseddol a gofal erbyn amser heb fod yn hwyrach na 16:00 ar [dyddiad].
11. Bydd yr Awdurdod Lleol, erbyn 12:00 ar [dyddiad] yn ffeilio gyda'r Llys fwndel cytunedig a baratöir yn unol â Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 PD 27A i gynnwys crynodeb yr achos, atodlen y materion (wedi'u cytuno os yn bosibl), a'r cyfarwyddiadau arfaethedig i'w ceisio. Bydd yr Awdurdod Lleol, erbyn yr un amser, yn ffeilio a chyflwyno mynegai i'r bwndel i bob un o'r ymatebwyr. Os bydd yn rhyw ymatebydd heb gynrychiolaeth bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu copi llawn o'r bwndel iddo/iddi.

12. Cyfarwyddir Llywodraethwr Carchar EM [enw] i sicrhau bod yr ymatebydd (tad) ZZ yn cael ei gyflwyno am 09:30 ar gyfer y gwrandawriad ar [dyddiad].
13. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno copi o'r gorchymyn hwn i erlynydd y CPS gyda rheolaeth yr achos troseddol ac i gyfreithiwr (wyr) yr amddiffyniaeth (a fydd yn darparu copïau i'r cwnsler a gyfarwyddwyd).

Dyddiedig

Model Protocol ac Arfer Da 2013

Datgelu gwybodaeth mewn achosion honedig o gam-drin plant a
gwrandawiadau troseddol a chyfarwyddiadau gofal cysylltiedig

Hydref 2013